# Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol

# Crynodeb o'r Hunanasesiad

## 2021-22



*Mae'r ddogfen yma'n cynnwys gwybodaeth am gynllunio a chynnydd blaenoriaethau'r Cyngor sef amcanion Lles y Cyngor fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a hefyd Hunanasesiad cryno'r Cyngor fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.*

*Mae'r ddogfen yma ar gael mewn sawl iaith a diwyg ar gais.*

.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

# Cynnwys


| | tud |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Hunanasesiad y Cyngor** | **2** |
| 1. **Sut rydyn ni wedi cyflawni ein blaenoriaethau** | **4** |
| • Pobl | 7 |
| • Lleoedd | 10 |
| • Ffyniant | 13 |
| 2. **Ein hasesiad o'n swyddogaethau corfforaethol** | **16** |
| 3. **Hunanwerthusiad o'n gwasanaethau** | **25** |
| 4. **Ein defnydd o'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy** | **28** |
| **Atodiad A - Cyfrannu at y Nodau Lles** | **30** |




# Cyflwyniad

Dyma flwyddyn gyntaf ein Hadroddiad Cyflawniad Corfforaethol ar ei newydd wedd, sy'n rhoi crynodeb o'n Hunanasesiad ar gyfer 2021/22, ac sy'n gweithredu fel arwyddbost at yr wybodaeth newydd a phresennol rydyn ni wedi'i defnyddio i barhau i adolygu ein cyflawniad.  Mae ein Hunanasesiad blynyddol yn cynnwys gwybodaeth am

1. **Sut rydyn ni wedi cyflawni ein blaenoriaethau -** adrodd ar ein cynnydd a'n cynlluniau trwy'r ystod eang o wybodaeth sydd eisoes ar gael i drigolion, cymunedau a'n rhanddeiliaid am sut rydyn ni'n cyflawni ein Blaenoriaethau h.y. ein Hamcanion Lles trwy ein Hadroddiadau Cyflawniad ac Adnoddau chwarterol ffurfiol i Bwyllgorau'r Cabinet a'r Cyngor ac amrywiol sianeli Cyfryngau Cymdeithasol y Cyngor.
2. **Ein hasesiad o'n swyddogaethau corfforaethol – gan gynnwys sut rydyn ni'n cyflawni'r Ddyletswydd Economaidd Gymdeithasol**
3. **Hunanwerthusiad o'n gwasanaethau**
4. **Ein defnydd o'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy** a gwybodaeth sy'n dangos sut rydyn ni'n rhoi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar waith.

Roedd ein Hadroddiadau Cyflwyniad Corfforaethol blaenorol, mae'r adroddiad diweddaraf ar gyfer 2021/22 yma, wedi'u cynllunio i fodloni gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.  Mae'r Mesur yma bellach wedi'i ddatgymhwyso.  Mae'r 'rhyddid' o'r Mesur, wedi galluogi'r Cyngor i fyfyrio ar y trefniadau blaenorol ac i fabwysiadu dull mwy cymesur, pragmatig ac amserol o gynllunio ac adrodd ar flaenoriaethau'r Cyngor, gwneud defnydd gwell o'r llu o wybodaeth sydd eisoes ar gael yn eang a lleihau'r beichiau adrodd cyn belled ag y bo modd.  Wrth wneud hynny mae hyn hefyd wedi rhoi'r cyfle i gynnwys ein Hunanasesiad blynyddol newydd a thrwy wneud hynny, bodloni gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

# Yr Hunanasesiad

Rhoddodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ystod eang o ddyletswyddau statudol newydd ar waith. Mae'r dyletswyddau sy'n cael eu hamlinellu yn Perfformiad a Llywodraethu Rhan 6, Pennod 1 o'r Ddeddf yn ymwneud â chryfhau a grymuso llywodraeth leol…"[*gan d]diffinio* prif gynghorau'n bendant fel sefydliadau sy'n gwella eu hunain drwy system sy'n seiliedig ar hunanasesu ac ar asesiadau o berfformiad gan baneli ". Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Gyrff Cyhoeddus wneud y pethau canlynol:

- parhau i adolygu cyflawniad
- ymgynghori ar gyflawniad ac
- adrodd ar gyflawniad, gan baratoi adroddiad hunanasesu ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

Mae gyda ni hanes cryf o adolygu ein cyflawniad trwy drefniadau monitro, cefnogi a herio sydd wedi'u hen sefydlu ar draws pob lefel o'r Cyngor gan arwain at ddiwylliant cyflawniad cadarnhaol ble mae'r sefydliad cyfan yn ymdrechu'n barhaus am ragoriaeth. Mae gyda ni hefyd raglenni eang o weithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu â phreswylwyr, staff a rhanddeiliaid sy'n helpu i lywio a llunio ein gwaith a gosod ein blaenoriaethau.

Mae'r 'catalog' llawn o'r wybodaeth sydd ar gael i ddangos sut rydyn ni'n cyflawni hyn wedi'i gynnwys yn y pedwar maes a ddisgrifir yn yr Hunanasesiad yma h.y.

1. **Sut rydyn ni wedi cyflawni ein blaenoriaethau**
2. **Ein hasesiad o'n swyddogaethau corfforaethol**
3. **Hunanwerthusiad o'n gwasanaethau**
4. **Ein defnydd o'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy**

Mae'r wybodaeth a ystyrir yn y pedwar maes sy'n rhan o'n Hunanasesiad yn rhedeg i filoedd o dudalennau, yn ogystal â channoedd o ddogfennau, polisïau, strategaethau a chynlluniau sydd wedi'u hypergysylltu sy'n darparu tystiolaeth a data ategol manylach. Mae detholiad ohonyn nhw yma. Mae'r 'catalog' yma'n cynnwys diweddariadau yn yr adroddiadau Cyflawniad ac Adnoddau chwarterol i'r Cabinet, adroddiadau annibynnol sy'n rhan o raglen waith y Cabinet a'i is-bwyllgorau a grwpiau llywio; adroddiadau craffu a chyn craffu; ystyriaethau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio; gwella a gwahanol fyrddau partneriaeth rhanbarthol yn ogystal â chydbwyllgorau. Mae llawer o'r wybodaeth yma ar gael i'r cyhoedd ers hyd at ddeunaw mis. Oherwydd hyn, a hefyd am ein bod ni eisoes ymhell i mewn i flwyddyn adrodd 2022/23, dydy hi ddim yn amserol, nac o werth ychwanegol sylweddol i'r darllenydd i atgynhyrchu manylion yr asesiadau yma. Serch hynny, trwy ddarparu crynodebau ac arwyddbyst lefel uchel, mae modd i ni ddangos ein hymagwedd agored ac eglur a rhoi mynediad i'r darllenydd sy'n chwilio am ragor o fanylion at yr wybodaeth sydd ei hangen arnyn nhw.

Mae gan y Cyngor yma hanes da o adolygu cyflawniad ynghyd â monitro cyflawniad cadarn a rheolaidd gan yr Uwch Dîm Arwain ac Aelodau etholedig. Mae ganddo hefyd brosesau hunanasesu sydd wedi'u hen sefydlu ar lefelau gwasanaeth a chorfforaethol fel y nodir yn ein Fframwaith Rheoli Cyflawniad. Mae hyn yn golygu ein bod ni'n gallu cefnogi a herio gwasanaethau a'r meysydd cymorth corfforaethol i wella'n barhaus a gosod blaenoriaethau gwasanaeth priodol ar gyfer cyflawni a chynllunio â blaenoriaeth, i'w hystyried, eu monitro a'u craffu gan Aelodau etholedig yng nghyfarfodydd y Cabinet, y Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio, y Pwyllgorau Archwilio a'r Cyngor. Mae ein dull o ymateb i adroddiadau rheoleiddwyr yn agored ac yn eglur ac mae adroddiadau a ystyriwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Pwyllgor Craffu yma.

Cafodd datganiad sefyllfa o ran ein parodrwydd i fodloni'r ddyletswydd statudol newydd o hunanasesu, yn enwedig yng ngoleuni ein diwylliant cyflawniad sefydledig, ei ystyried gan y Cabinet ym mis Mawrth 2021.

Oherwydd digwyddiadau digynsail y ddwy flynedd ddiwethaf, rhwng Gwanwyn 2020 a Hydref 2021, rhoddwyd terfyn ar rai o'n prosesau hunanasesu er mwyn caniatáu canolbwynt uniongyrchol priodol ar yr ymateb i bandemig Covid a'r camau adfer. Serch hynny, ni effeithiwyd llawer ar yr adroddiadau chwarterol i Aelodau etholedig. Ar ddiwedd 2021, fe wnaethon ni ailddechrau cylch llawn o hunanwerthusiadau o'n gwasanaethau ac asesiad o'n swyddogaethau corfforaethol.

O ystyried y 'bwlch' mewn rhai agweddau ar ein gwybodaeth hunanasesu a'r gwerth mewn darparu cyfres fwy cynhwysfawr ac amserol o wybodaeth i'r weinyddiaeth newydd, rydyn ni wedi mabwysiadu ymagwedd bragmatig at fodloni'r gofynion adrodd newydd ym mlwyddyn gyntaf Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru). Rydyn ni hefyd wedi achub ar y cyfle i gryfhau ymhellach sut rydyn ni'n bodloni gofynion adrodd presennol i leihau beichiau adrodd a gwneud y defnydd gorau o ffrydiau adrodd presennol.

Mae'r adrannau canlynol yn nodi'r pedwar maes yn ein 'cyfres' hunanasesu ar gyfer 2021/22. Mae hyn yn cynnwys crynodebau lefel uchel o gynnydd wrth gyflawni cynlluniau blaenoriaeth y Cyngor, h.y. amcanion llesiant; asesiadau ar gyfer pedwar ar ddeg o feysydd gwaith corfforaethol/trawsbynciol, gwybodaeth am ein hunanwerthusiadau o'n gwasanaethau ar gyfer un ar hugain o feysydd gwasanaeth a'n defnydd o'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy.

Drwy gydol yr asesiad gall y Cyngor ddangos tystiolaeth o welliant cyson dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Parhaodd hyn yn ystod y pandemig byd-eang digynsail, pan wnaethon ni barhau i gyflawni ein blaenoriaethau, gan ddarparu sylfaen gadarn i adeiladu a chyflymu cynnydd yn dilyn adferiad.

Mae'r gwelliant parhaus yn parhau i gael ei ysgogi gan arweinyddiaeth gref a chanolbwynt gan yr Arweinydd a'r Cabinet. Yn ystod y misoedd nesaf, bydd gwaith yn dechrau ar gyfranogiad a pharatoadau ar gyfer ein Cynllun Corfforaethol newydd, gan nodi ein cynlluniau a'n huchelgeisiau y tu hwnt i 2024.

Mae arweinyddiaeth wleidyddol y Cyngor wedi bod yn sefydlog ers nifer o flynyddoedd, ac yn parhau i fod yn gyson yn dilyn etholiadau Llywodraeth Leol 2022. Cydnabuwyd sefydlogrwydd a chryfder yr arweinyddiaeth gan staff mewn arolwg staff a ystyriwyd gan yr Uwch Dîm Arwain ym mis Chwefror 2022. O'r staff a ymatebodd,

- roedd 75% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod RhCT yn Gyngor cryf sy'n arwain y ffordd mewn llawer o wasanaethau.
- Doedd 19% ddim yn cytuno nac yn anghytuno.
- Roedd 5% yn ansicr, yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

Mae'r canfyddiadau yma'n rhoi sicrwydd bod staff wedi gweld a theimlo arweinyddiaeth gref yn ystod y cyfnod mwyaf heriol ym modolaeth Cyngor Rhondda Cynon Taf a byddwn ni'n parhau i ddatblygu a darparu'r arweinyddiaeth gref a gweladwy yma.



RHAN: 1

# Sut rydyn ni wedi cyflawni ein blaenoriaethau

# RHAN 1

## Sut rydyn ni wedi cyflawni ein blaenoriaethau

Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2020-2024 'Gwneud Gwahaniaeth' yn nodi ein gweledigaeth, yn gosod ein tair blaenoriaeth POBL, LLEOEDD a FFYNIANT a'n hymagwedd. Gyda'i gilydd, mae'r agweddau strategol yma'n cyfeirio popeth a wnawn ac maen nhw wedi'u gwreiddio'n dda yn strategaethau a threfniadau cynllunio eraill y Cyngor, gan gynnwys cynllunio ar gyfer y gweithlu, cynllunio ariannol a rheoli risg. Mae pob un o'r blaenoriaethau yn cyfrannu at gyflawni lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol RhCT, a Chymru.

Mae'r cynlluniau manwl i gyflawni ein tair blaenoriaeth POBL, LLEOEDD a FFYNIANT yn cael eu cytuno ar hyn o bryd gan y Cyngor a'u monitro a'u harchwilio wedyn gan Aelodau etholedig yn y pwyllgorau Cabinet, Craffu a Llywodraethu ac Archwilio yn rhan o'r Adroddiadau Cyflawniad ac Adnoddau chwarterol.

Mae'r Adroddiadau Cyflawniad ac Adnoddau chwarterol i'r Cabinet yn cynnwys

- **Crynodeb Gweithredol** o Gyflawniad bob chwarter.
- **Monitro Cyllideb Refeniw** – nodi'r gwariant ariannol manwl yn erbyn y gyllideb ar draws ein Cyllideb Refeniw gan amlygu eithriadau.
- **Monitro'r Gyllideb Gyfalaf** – nodi gwariant ar draws ein Rhaglen Gyfalaf gydag eithriadau wedi'u hamlygu ac adran yn ymdrin â dangosyddion darbodus.
- **Data Iechyd Sefydliadol**– yn cynnwys trosiant staff, absenoldeb salwch, meysydd buddsoddi sefydliadol yn ymwneud ag iechyd a diweddariad ar Gofrestr Risg Strategol y Cyngor.
- **Cyflawni ein Cynllun Corfforaethol**: Cynnydd wrth gyflawni ein Blaenoriaethau Corfforaethol; Pobl, Lleoedd a Ffyniant.
- **Ein hymateb i ddigwyddiadau tywydd eithafol** – y cynnydd a wnaed i weithredu'r argymhellion y cytunwyd arnyn nhw gan y Cabinet ar 18 Rhagfyr 2020.

O ran cyflawni ein Cynllun Corfforaethol ac yn arbennig y blaenoriaethau y mae'n eu nodi, mae'r adroddiadau chwarterol yn rhoi trosolwg o'n cynnydd, gyda hyperddolenni i ragor o adroddiadau pellach gan gynnwys rhai manylach, astudiaethau achos a 'chyfathrebu' perthnasol. Maen nhw hefyd yn cyflwyno adroddiadau cynnydd manylach trwy ddiweddariadau i bob un o'r tri chynllun gweithredu. Cafodd adroddiad diwedd blwyddyn 2021/22 ei ystyried gan y Cabinet ar 18 Gorffennaf 2022.

Gallwn weld o'r wybodaeth yma ein bod ni, ar y cyfan, yn gwneud cynnydd da o ran cyflawni ein blaenoriaethau ond rydyn ni hefyd yn gwybod am y meysydd hynny y mae angen i ni eu gwella.

Does dim un adroddiad unigol sy'n gallu rhoi darlun cyflawn, amserol a chynhwysfawr o'r gwaith sy'n cael ei wneud ar draws y Cyngor sy'n cyfrannu at gyflawni ein blaenoriaethau. Er enghraifft, mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol sydd wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon yn rhoi asesiad o drefniadau Llywodraethu'r Cyngor ac i ba raddau y mae'n rheoli'r modd y mae'n darparu ei wasanaethau a'i flaenoriaethau a'i adnoddau yn effeithiol. Roedd Datganiad 2020/21 yn nodi bod y trefniadau llywodraethu yma ar waith.

Serch hynny, mae'r wybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn yr adroddiadau chwarterol yn rhoi trosolwg defnyddiol mae modd i'r darllenydd ei ddefnyddio i gael rhagor o wybodaeth fanwl.

Mae’r tair adran ganlynol yn rhoi crynodeb o gynnydd pob un o’n blaenoriaethau fel y disgrifir yn yr adroddiad diwedd blwyddyn, ynghyd â dolen i bob un o’r tri Chynllun Blaenoriaeth 2022/23 a fydd yn sail i fonitro a chraffu ar ein cynnydd, hyd at a chan gynnwys 31 Mawrth 2023.

# Pobl



1

## Sut rydyn ni wedi cyflawni ein blaenoriaethau

Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol
Crynodeb o'r Hunanasesiad 2021-22

# POBL

## …annibynnol, iach a llwyddiannus

**Cyflwyniad**

Rydyn ni wedi rhoi cynlluniau ar waith i helpu POBL i fod yn annibynnol, iach a llwyddiannus oherwydd rydyn ni eisiau rhoi'r cyfle gorau i bobl o bob oed, gallu a chefndir i fyw bywyd o ansawdd da, nawr ac yn y dyfodol. Credwn, trwy weithio gyda phartneriaid i helpu pobl i aros yn iach ac yn actif a chymryd rhan yn eu cymunedau, gan atal llawer o faterion hirdymor rhag codi, mae modd i bobl aros yn iach yn hirach. Ble mae angen cymorth ar bobl, mae angen i ni wneud y cymorth yma'n haws iddyn nhw ddod o hyd iddo. Dywedodd trigolion wrthon ni fod hyn yn bwysig iddyn nhw a'u teuluoedd.

**Datganiad cyffredinol o gynnydd**

Er gwaethaf yr heriau sy'n parhau yn sgil pandemig Covid-19, fe wnaethon ni barhau i wneud cynnydd da fel Cyngor ac mewn partneriaethau. Fe wnaethon ni barhau â'n gwaith i gefnogi ein preswylwyr sy'n hŷn, yn agored i niwed neu sydd ag anableddau, i aros yn annibynnol a chael ansawdd bywyd da ac rydyn ni wedi parhau â'r gwaith adeiladu arfaethedig ar lety preswyl newydd. Fe wnaethon ni barhau i annog yr holl breswylwyr i fyw bywydau egnïol ac iach a chynnal eu lles meddyliol ac ail-agor ein cyfleusterau hamdden gan gynnwys y cyfleusterau hamdden newydd yng nghanolfan Llys Cadwyn ym Mhontypridd. Fe wnaethon ni barhau i weithio gyda phartneriaid i gefnogi pobl hŷn i aros yn eu cartrefi'n hirach, atal arosiadau diangen yn yr ysbyty a helpu i gael pobl adref o'r ysbyty yn ddiogel ac yn gyflymach pan maen nhw'n ddigon iach, er ein bod ni'n cydnabod bod rhagor i'w wneud. Fe wnaethon ni barhau i ganolbwyntio ar gefnogi ein preswylwyr a'n teuluoedd mwyaf agored i niwed. Gwyddon ni fod llawer i'w wneud i helpu i gadw ein preswylwyr o bob oed a chefndir yn ddiogel ac yn iach.

Mae rhagor o fanylion yn ein hadroddiad cyflawniad chwarterol diwedd y flwyddyn i'r Cabinet ar 18 Gorffennaf 2022. Mae hyn yn cynnwys diweddariad ariannol ar ein meysydd blaenoriaeth ar gyfer buddsoddi a gwybodaeth am sut rydyn ni wedi …………….

- agor Cwrt yr Orsaf Pontypridd, ein trydydd cyfleuster gofal ychwanegol yn RhCT, ochr yn ochr â Thŷ Heulog yn Nhonysguboriau a Maes-y-ffynnon yn Aberaman, gyda chyfleusterau eraill ar y gweill yn y Porth a Threorci;
- rhoi gweithgareddau gwyliau ysgol llawn hwyl ar waith mewn 15 o'n hysgolion. Cymerodd tua 400 o blant ran;
- agor Cynllun Llety â Chymorth i oedolion ag anabledd dysgu gyda chynlluniau'n cael eu datblygu i ddarparu ystod o opsiynau tai â chymorth sy'n diwallu anghenion pobl agored i niwed;
- ailagor Lido Ponty a Phwll Nofio'r Ddraenen Wen;
- cyflwyno ystod newydd o weithgareddau hamdden wedi'u targedu i gadw pobl yn actif, gan gynnwys 'Camau i Famau' a fideos yn cynnwys llwybrau cerdded;
- cyflwyno rhaglen o ddarpariaeth chwarae wedi'i thargedu ar gyfer plant 5-14 oed sy'n agored i niwed ac sydd ag anghenion gofal a chymorth;
- lansio'r ap newydd Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid i roi rhagor o wybodaeth o safon uchel i roi cymorth i bobl ifainc;

a ………………

- pharhau â'n hadolygiad o ofal preswyl i bobl hŷn;
- parhau i ddatblygu ein gwaith i gefnogi adferiad ac annibyniaeth a gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd Prifysgol i osgoi derbyniadau i'r ysbyty a chefnogi rhyddhau o'r ysbyty;
- parhau i ddatblygu atebion digidol i gefnogi pobl a'u teuluoedd;
- parhau i gryfhau ein trefniadau i hyfforddi ein staff Gwasanaethau i Oedolion mewn gwahanol ffyrdd o weithio gydag unigolion a theuluoedd;
- dechrau rhoi dull gwahanol ar waith i helpu pobl i reoli eu hanghenion gofal drwy daliadau uniongyrchol drwy'r model 'Catalydd Cymunedol' newydd;
- siarad â phobl am wasanaethau oriau dydd newydd i bobl ag anabledd dysgu sy'n rhoi gweithgareddau ystyrlon a chyfleoedd iddyn nhw gyflawni eu nodau personol;
- parhau i ddatblygu ein Canolfannau Cymunedol fel mannau i bobl gyfarfod a chymdeithasu, gan gryfhau perthnasoedd gyda thrigolion a grwpiau cymunedol;
- cynnwys pobl yn y gwaith o ddatblygu cynllun cynhwysol a hygyrch newydd ar gyfer ein theatrau;
- atal rhagor o ddigartrefedd yn y Fwrdeistref Sirol, o 48% yn Chwarter 1 2021/22 i 69% ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd data annibynnol ar gyfer cyflawniad yn ystod y chwarter olaf yn 77%.
- rhoi gwybodaeth a chymorth i'r bobl hynny sy'n cefnogi Wcrainiaid sy'n ffoi rhag gwrthdaro a hefyd y teuluoedd o Wcráin sydd wedi cyrraedd Rhondda Cynon Taf;
- parhau i weithio gyda phartneriaid i helpu pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain yn hirach, rheoli trosglwyddiadau gofal a gwella gofal diwedd oes yn y gymuned;
- parhau â'n gwaith i wneud yn siŵr bod y plant hynny sydd ddim yn gallu aros gyda'u teuluoedd yn derbyn gofal yn nes at adref a bod y bobl ifainc hynny sy'n gadael gofal yn cael y cymorth cywir;
- parhau i drawsnewid cymorth blynyddoedd cynnar fel bod pobl yn gallu cael gafael ar gymorth ni waeth ble maen nhw'n byw;
- parhau i ddatblygu'r model Presgripsiynu Cymdeithasol.

Mae rhagor o wybodaeth am ein gwasanaethau yn Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021/22.

Mae'r cynlluniau manwl i gyflawni ein **Blaenoriaeth POBL yn 2022/23** ar gael yma.

# Lleoedd



## Sut rydyn ni wedi cyflawni ein blaenoriaethau

1

Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol
Crynodeb o'r Hunanasesiad 2021-22

# LLEOEDD

## Creu cymdogaethau mae pobl yn falch o gael byw, gweithio, a chwarae ynddyn nhw

**Cyflwyniad**

Rydyn ni wedi rhoi cynlluniau ar waith ar gyfer LLEOEDD oherwydd rydyn ni'n gwybod bod cael amgylchedd glân, dymunol sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda yn bwysig i breswylwyr. Mae cael casgliadau ailgylchu a gwastraff effeithlon, mannau gwyrdd croesawgar, strydoedd glân a ffyrdd wedi'u cynnal a'u cadw'n dda yn rhai o'r ffyrdd rydyn ni'n gallu gwneud bywydau beunyddiol preswylwyr yn fwy dymunol yn ogystal ag i'n hymwelwyr sy'n dod i fwynhau popeth sydd gan Rondda Cynon Taf i'w gynnig. Serch hynny, ein her fwyaf yw chwarae ein rhan wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ac mae gyda ni strategaeth Mynd i'r Afael â Newid yn yr Hinsawdd ar waith i gyfeirio'r gwaith i gyflawni'r nodau lleihau carbon rydyn ni wedi'u gosod i ni ein hunain.

**Datganiad Cyffredinol**

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydyn ni wedi parhau i wneud cynnydd da fel Cyngor ac fel rhan o bartneriaethau ehangach, i wneud LLEOEDD ble mae pobl yn falch o fyw, gweithio a chwarae ynddyn nhw. Trwy gefnogi a gweithio gyda phreswylwyr fe wnaethon ni ailgylchu 67.18% o'r gwastraff a gasglwyd gennym ni. Fe wnaethon ni hefyd barhau i orfodi'r negeseuon dim goddefgarwch ar gyfer troseddau amgylcheddol. Aethom ymlaen â'n cynlluniau lleihau carbon drwy ddatblygu'r seilwaith gwefru cerbydau trydan, newid system casglu ac ailgylchu ein 'gwastraff gwyrdd' ac ehangu cyfleoedd i ddatblygu teithio llesol. Fe wnaethon ni gymryd camau i gadw preswylwyr yn ddiogel, e.e. ymateb i adborth preswylwyr i barhau â 'Pharthau Dim Alcohol' ym Mhontypridd ac Aberdâr, cefnogi pobl sy'n dioddef trais domestig a rhywiol i gael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw pan maen nhw'n mynd i'r ysbyty ac yn gweithio ar ymgyrchoedd Cymru gyfan i fynd i'r afael â masnachu anghyfreithlon. Fe wnaethon ni hefyd wella gwasanaethau i'r trigolion hynny sydd angen cymorth a chefnogaeth gyda chamddefnyddio sylweddau. Rydyn ni wedi parhau i greu a chefnogi prosiectau newydd yn ymwneud â bioamrywiaeth a'r hinsawdd gan gynnwys sefydlu Partneriaeth Bwyd Cynaliadwy. Serch hynny, rydyn ni'n gwybod bod gennyn ni ragor i'w wneud i barhau i wella LLEOEDD ac i gyflawni ein huchelgeisiau hinsawdd tymor byr a thymor hir. Mae hyn yn cynnwys cyflawni ein targedau ailgylchu ac ailddefnyddio uchelgeisiol, cofleidio'r economi gylchol, rhoi atebion addasu a lliniaru ar waith i helpu i fynd i'r afael ag effaith newid yn yr hinsawdd i leihau'r effaith ar ein preswylwyr a thrwy wneud hynny, helpu i wella'r ansawdd aer ar draws y Fwrdeistref Sirol.

Mae rhagor o fanylion am sut rydyn ni wedi gwneud hyn yn ein hadroddiad cyflawniad chwarterol diwedd y flwyddyn i'r Cabinet ar 18 Gorffennaf 2022. Mae hyn yn cynnwys diweddariad ariannol ar ein meysydd blaenoriaeth buddsoddi ynghylch sut rydyn ni wedi

- cwblhau rhaglen fuddsoddi gynhwysfawr gwerth £27 miliwn ar ein gwelliannau i briffyrdd a strwythurau, gwelliannau i systemau draenio ac adfer wedi stormydd ar draws Rhondda Cynon Taf;
- cyhoeddi deuddeg adroddiad llifogydd Adran 19;
- rhoi Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan ar waith a darparu gwybodaeth am gynnydd y gwaith o osod pwyntiau gwefru trydan ar wefan y Cyngor;

- ailgylchu 67.18% o'r gwastraff a gasglwyd gennyn ni;
- cymryd camau gorfodi yn erbyn 997 o achosion o dipio anghyfreithlon, a
- gweld Grŵp Parcio De Cymru yn prosesu 20,000 o Hysbysiadau Tâl Cosb ar gyfer digwyddiadau yn RhCT;
- siarad â phreswylwyr am Ailgylchu Gwastraff Bwyd a pham mae rhai yn dewis peidio;
- lansio system Casglu Gwastraff Gwyrdd cynaliadwy newydd. Cofrestrodd bron i 45,000 o aelwydydd, y mwyafrif ohonyn nhw ar-lein;
- lansio ein tudalen we bioamrywiaeth newydd i ddarparu gwybodaeth am yr hyn sydd gan RCT i'w gynnig;
- sefydlu treial 'profwch cyn prynu' ar gyfer tacsis cerbydau trydan yn rhan o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, a oedd yn cynnwys paratoadau i wneud tri phwynt gwefru tacsi trydan 65kw penodol yn fyw ym Mhontypridd, y Porth ac Aberdâr;
- sefydlu Partneriaeth Bwyd Cynaliadwy RhCT i sicrhau bod gan drigolion fynediad at fwyd iach, blasus, fforddiadwy sy'n dda i'r amgylchedd ac i'r economi leol;
- gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu i ddarparu cyngor a chymorth annibynnol arbenigol i ddioddefwyr cam-drin domestig sy'n datgelu cam-drin tra'n mynychu adrannau damweiniau ac achosion brys i gael triniaeth a/neu apwyntiadau ysbyty yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg.
- ail-lansio ymgyrch 'Ask for Angela' er mwyn cefnogi pobl sy'n teimlo'n agored i niwed neu'n anniogel ac angen mynediad i fannau diogel mewn eiddo sydd wedi cofrestru â chynllun gwarchod tafarndai 'Pubwatch';
- agor 'Disgyrchiant', Parc Beiciau ar gyfer Teuluoedd ym Mharc Gwledig Cwm Dâr.

a hefyd

- treialu cerbydau carbon isel a dewisiadau tanwydd amgen yn ein fflyd;
- parhau i ddatblygu ein trefniadau i reoli a gosod rhagor o bwyntiau gwefru sy'n hygyrch i'r cyhoedd a cheisio cyllid ychwanegol i ehangu ymhellach;
- parhau i ddatblygu ffyrdd o gynhyrchu ynni adnewyddadwy ac ailddefnyddio plastigion caled;
- parhau i ddatblygu Parc Eco Bryn Pica a chwilio am gyfleoedd ariannu i'w ddatblygu ymhellach;
- parhau i baratoi i gefnogi busnesau a landlordiaid cymdeithasol i weithredu'r newidiadau arfaethedig i ailgylchu gwastraff masnachol;
- parhau â'n gwaith i leihau ein defnydd o blastigau untro yn y Cyngor drwy'r newidiadau i'n prosesau caffael;
- parhau i waredu/ailgylchu ein hoffer swyddfa a thechnoleg mewn ffordd fwy cynaliadwy;
- parhau i weithio gyda phartneriaid i leihau gwastraff drwy raglenni ymgyrch dwys a gwella arferion ailgylchu mewn mannau casglu biniau cymunedol;
- parhau i gefnogi preswylwyr i gael mynediad at barseli bwyd, ffrwythau a llysiau ffres trwy Gronfa Cymorth Bwyd RhCT a'r Rhwydwaith Lleoedd Bwyd Cynaliadwy;
- parhau i erlyn gweithgarwch twyllodrus, gan gynnwys drwy Ymgyrch CeCe sydd wedi atalfaelu 1 miliwn o sigaréts anghyfreithlon.

Mae'r cynlluniau manwl i gyflawni ein blaenoriaeth **LLEOEDD yn 2022/23** ar gael yma.

# Ffyniant



1

## Sut rydyn ni wedi cyflawni ein blaenoriaethau

Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol
Crynodeb o'r Hunanasesiad 2021-22

# FFYNIANT

## Creu'r cyfle i bobl a busnesau fod yn arloesol, yn entrepreneuraidd ac i gyflawni eu potensial a ffynnu

**Cyflwyniad**

Rydyn ni wedi rhoi cynlluniau ar waith ar gyfer FFYNIANT oherwydd ein bod ni am greu cyfleoedd i bobl gyrraedd eu potensial trwy addysg a hyfforddiant ac i fusnesau ledled y Fwrdeistref Sirol ffynnu nawr ac yn y dyfodol. Rydyn ni'n parhau i fuddsoddi yn ein hysgolion, lleoliadau blynyddoedd cynnar a'n canol trefi, gan ddenu rhagor o swyddi a chreu cartrefi newydd, ynghyd â chyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden a chymdeithasol. Rydyn ni'n credu fod gan RCT lawer i'w gynnig, ac rydyn ni am wneud yn siŵr ein bod ni'n gwneud y defnydd gorau o'n gwaith gyda phartneriaid gan gynnwys gwella argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus carbon isel a hygyrch, cryfhau twristiaeth a chreu swyddi newydd, yn enwedig yn yr economi 'gwyrdd'.

**Datganiad Cyffredinol o Gynnydd**

Fe wnaethon ni barhau i wneud cynnydd cadarnhaol fel Cyngor a gweithio mewn partneriaeth er gwaethaf heriau sy'n parhau o ganlyniad i bandemig Covid-19, yn enwedig i'n hysgolion a'n busnesau. Fe wnaethon ni barhau i gefnogi busnesau ac arwain mewn cynlluniau uchelgeisiol i drawsnewid canol ein trefi i ddatgloi eu potensial economaidd, cymdeithasol a diwylliannol wrth gydbwyso ystyriaethau amgylcheddol. Buom hefyd yn gweithio'n agos gyda phartneriaid i ddarparu cartrefi o ansawdd, fforddiadwy ac ynni-effeithlon a pharhau i ddatblygu cynllun datblygu lleol cryf ar gyfer dyfodol hirdymor y Fwrdeistref Sirol. Bydd ein Cynllun Addysg Strategol newydd yn ysgogi cymorth a gwelliant parhaus i'n hysgolion, gan sicrhau bod lles a chynhwysiant wrth wraidd ein dull. Bûm hefyd yn cefnogi oedolion o bob oed i ddatblygu eu sgiliau, dod o hyd i waith neu ddatblygu eu gyrfaoedd.

Mae rhagor o fanylion am sut y gwnaethom ni hyn yn ein hadroddiad cyflawniad chwarterol diwedd y flwyddyn i'r Cabinet ar 18 Gorffennaf 2022. Mae hyn yn cynnwys diweddariad ariannol ar ein meysydd blaenoriaethau buddsoddi a gwybodaeth am sut rydyn ni wedi

- cwblhau amrywiaeth o brosiectau ailddatblygu eiddo a safleoedd yng nghanol ein trefi, gan gynnwys ailddatblygu Sgwâr Rhos (Sgwâr Guto) yn Aberpennar a Hwb Trafnidiaeth Porth;
- llunio Cynllun Creu Lleoedd drafft ar gyfer Canol Tref Pontypridd i roi gweledigaeth ar gyfer adfywio'r dref i ddatgloi ei photensial economaidd, cymdeithasol a diwylliannol a chefnogi ailddatblygu safleoedd segur gan gynnwys yr hen Neuadd Bingo ac adeilad Marks & Spencer;
- cefnogi teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus yng nghanol ein trefi trwy gael caniatâd cynllunio ar gyfer ehangu cynlluniau parcio a theithio ym Mhorth, Treorci a Llwynypia a chwblhau astudiaethau teithio llesol yng nghanol trefi Pontypridd, Aberdâr a'r Porth;
- rhoi ein Strategaeth Dwristiaeth newydd ar waith a sut rydyn ni'n bwriadu hyrwyddo ein tirwedd, diwylliant a threftadaeth i gefnogi'r economi leol;
- cytuno ar Gynllun Addysg Strategol newydd sy'n amlinellu blaenoriaethau ar gyfer y tair blynedd nesaf. Fe wnaethon ni hefyd gyflwyno ein Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg newydd i Lywodraeth Cymru;

- rhoi systemau newydd ar waith i nodi ble mae angen y mwyaf o gymorth ar ein hysgolion a'n disgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan bandemig Covid-19, a rhoi cymorth ac arweiniad ar waith i wella safonau a chyflwyno'r cwricwlwm newydd;
- cwblhau cynlluniau i wella cyfleusterau Blynyddoedd Cynnar yn Ysgol Gynradd Dolau, Ysgol Gynradd Gwauncelyn ac Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant, a ariennir gan Grant Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru;
- gweithio gyda chymdeithasau tai a landlordiaid i gefnogi pobl ag ystod o anghenion, gan gynnwys pobl ifainc sy'n gadael gofal, i ddod o hyd i gartrefi addas ac aros ynddyn nhw.

a pharhau i

- arwain ar y grant Trawsnewid Trefi gwerth £15 miliwn ar draws ardal Prifddinas-ranbarth Caerdydd ac mae cyfres gref o brosiectau posibl yn cael eu datblygu, gan gynnwys adolygiad o safleoedd sy'n segur ar hyn o bryd;
- cefnogi ein busnesau lleol, gan gynnwys galluogi busnesau llai i gystadlu am gontractau'r Cyngor drwy wella cyfathrebu a chwblhau'r gwaith o gyflwyno wi-fi i 7 canol tref;
- datblygu Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig gyda chyfnod cynllun diwygiedig estynedig 2022–2037, i ymateb yn llawn i'r materion allweddol sy'n ein hwynebu ni nawr, gan gynnwys y newid yn yr hinsawdd ac effeithiau Brexit a phandemig Covid-19;
- datblygu'r prif gynllun ar gyfer Ardal Cyfle Strategol Llanilid a chynlluniau creu lleoedd ar gyfer canol trefi. Mae hyn yn cynnwys deialog gyda datblygwyr a Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i gefnogi datblygiadau tai newydd ar safleoedd tir llwyd;
- cyflawni cynlluniau trafnidiaeth mawr gan gynnwys deuoli'r A4119; cynllun ffordd osgoi Llanharan a phrosiect Porth Gogledd Cwm Cynon;
- adolygu ac ymestyn ein cynllun peilot Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd i gefnogi plant a theuluoedd i wella eu lles a'u presenoldeb yn yr ysgol;
- sicrhau bod trefniadau effeithiol yn eu lle i fodloni gofynion Deddf ALNET, fframwaith statudol newydd ar gyfer cefnogi plant a phobl ifainc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY);
- buddsoddi yn ein hadeiladau ysgol er mwyn datblygu amgylcheddau dysgu a chyfleusterau cymunedol o ansawdd uchel i ddiwallu anghenion hirdymor, gan gynnwys adeiladau carbon sero-net;
- cefnogi cynnydd yn nifer y cartrefi carbon isel, ynni-effeithlon yn RhCT, gan gynnwys gweithio gyda Chymdeithas Tai Cwm Rhondda i ddatblygu cartref di-garbon gan ddefnyddio pren lleol yn rhan o gynllun Skyline;
- cefnogi ôl-osod cartrefi presennol i'w gwneud yn fwy ynni-effeithlon;
- darparu ystod o gefnogaeth i bobl ennill sgiliau, dod o hyd i waith a datblygu eu gyrfaoedd trwy ein rhaglenni cymorth cyflogaeth, ein rhaglen i raddedigion a phrentisiaethau. Mae hyn hefyd yn cynnwys cymorth arbenigol ar gyfer y rhai ag anghenion penodol gan gynnwys pobl ifainc, y rhai sy'n gadael gofal a phobl ag anableddau dysgu.

Mae'r cynlluniau manwl i gyflawni ein **blaenoriaethau FFYNIANT yn 2022/23** ar gael yma.



RHAN: 2

# Ein hasesiad o'n swyddogaethau corfforaethol

# RHAN 2

## Ein hasesiad o’n swyddogaethau corfforaethol – gan gynnwys sut rydyn ni'n cyflawni'r Dyletswyddau Economaidd Gymdeithasol

Rydyn ni wedi nodi pedwar ar ddeg o feysydd gwaith corfforaethol/trawsbynciol sy'n sail i bopeth rydyn ni'n ei wneud. Mae'r meysydd gwaith trawsbynciol yma hefyd yn cynnwys y set o saith gweithgaredd craidd "*sy'n gyffredin i lywodraethu cyrff cyhoeddus yn gorfforaethol………… yn debygol o sicrhau'r math o newid sydd ei angen yn fwyaf effeithiol*" fel y nodir yn y Canllaw Craidd ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015. Ble mae hyn yn wir, wrth baratoi ein hasesiadau mae modd i ni hefyd ddangos sut rydyn ni'n cymhwyso gweithgareddau craidd y Ddeddf.

**Corfforaethol/Trawsbynciol**

1. Cynllunio a Dull Gweithredu Strategol
2. Llywodraethu a Chraffu
3. Cyflawniad Cyllidol a Rheoli Risg
4. Adnoddau Dynol
5. Rheoli Asedau
6. TG/Rheoli Gwybodaeth
7. Caffael a Chomisiynu
8. Partneriaethau
9. Cynnwys, Ymgysylltu ac Adborth gan Gwsmeriaid
10. Y Gymraeg
11. Cydraddoldeb a Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol
12. Adborth Rheoleiddwyr
13. Sero Net
14. Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol

**Gweithgareddau Craidd**

1. Cynllunio Corfforaethol
2. Cynllunio Ariannol
3. Rheoli Cyflawniad
4. Rheoli Risg
5. Cynllunio'r Gweithlu
6. Asedau
7. Caffael

Aseswyd cyflawniad pob un o'r pedwar maes ar ddeg yma i ystyried sut maen nhw'n cefnogi darparu gwasanaethau a blaenoriaethau'r Cyngor a galluogi'r Cyngor i fodloni gofynion statudol perthnasol. Mae crynodeb o bob un o'r asesiadau yma i'w weld isod.

1. **Cynllunio a Dull Gweithredu Strategol/Cynllunio Corfforaethol**
   Er gwaethaf yr heriau digynsail sy'n deillio o bandemig Covid-19 a'r ymateb a'r ailffocysu hanfodol sy'n angenrheidiol i gefnogi ein preswylwyr, roedd gweledigaeth strategol, blaenoriaethau a dull gweithredu'r Cyngor yn cyfeirio adnoddau'r Cyngor

at y mannau ble gwnaethon nhw'r gwahaniaeth mwyaf i bobl a chymunedau Rhondda Cynon Taf. Mae hyn wedi parhau i fod yn wir y tu hwnt i'r pandemig wrth i ni ddychwelyd i fusnes yn ôl yr arfer.

Serch hynny, rydyn ni'n gwybod bod gennyn ni ragor i'w wneud i sicrhau bod blaenoriaethau'r Cyngor yn cael eu hadlewyrchu'n llawn yn holl strategaethau/polisïau'r Cyngor ac ati. Byddwn ni'n sicrhau bod ein harweinyddiaeth, ein her, ein cefnogaeth a'n huchelgais yn parhau'n gryf ac yn eglur fel ein bod ni'n parhau i gynnal yr ethos cryf o hunanymwybyddiaeth a gwelliant parhaus sydd wedi gwreiddio ar draws gwasanaethau'r Cyngor dros y blynyddoedd diwethaf. Byddwn ni'n parhau i wneud y defnydd gorau o'n holl adnoddau ac i gryfhau ein gwybodaeth am ein cymunedau fel bod modd i ni sicrhau bod ein canolbwynt ar eu hanghenion yn parhau'n glir a bod blaenoriaethau'n berthnasol, yn enwedig wrth i ni ddechrau ystyried ein cynllunio corfforaethol y tu hwnt i 2024.

2. **Llywodraethu a Chraffu**
   Mae'r Cyngor yn parhau i gryfhau ei drefniadau llywodraethu, craffu ac atebolrwydd er mwyn llywio'n fwy effeithiol a chadarn a herio ei hun a'i bolisïau i yrru newid yn ei flaen. Rydyn ni hefyd yn parhau i wella mynediad at y broses ddemocrataidd a dangos deilliannau gwell i breswylwyr a chymunedau drwy ein trefniadau gwneud penderfyniadau. Roedd y meysydd canolbwynt yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys parhau i ddatblygu gallu a chefnogaeth i alluogi Aelodau etholedig i gyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol. Mae'r Cyngor wedi parhau i wella amrywiaeth ei gynrychiolaeth, gyda chymorth rhagor o ddefnydd o dechnoleg mewn cyfarfodydd rhithwir a hybrid sydd hefyd yn bodloni gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae llawer i'w wneud o hyd i fodloni a gwreiddio'r gofynion yma'n llawn. Gan adeiladu ar y cynnydd a wnaed i gefnogi'r weinyddiaeth flaenorol, rydyn ni'n sicrhau bod gan y 'Cyngor' newydd a ffurfiwyd yn dilyn etholiadau Llywodraeth Leol 2022, yr wybodaeth, y cyfarpar a'r cymorth perthnasol yn eu lle i alluogi pob Aelod i gynnal busnes y Cyngor yn bersonol a thrwy gyfarfodydd rhithwir yn eu dewis iaith. Bydd y Strategaeth Cyfranogiad newydd yn cael ei chwblhau a'i rhoi ar waith yn yr hydref, gan ehangu mynediad at ddemocratiaeth i bobl o bob oed a gallu. Mae'r gwaith i greu a datblygu Cydbwyllgorau Corfforedig rhanbarthol ar gyfer De-ddwyrain Cymru yn parhau, gyda'r nod o drawsnewid model gweithredu a chyflawni presennol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn un corff corfforaethol gyda'r Cydbwyllgorau Corfforedig yn mabwysiadu rôl gwneud penderfyniadau a throsolwg presennol y Cydbwyllgor. Arafwyd y cynnydd gan yr angen i fynd i'r afael â nifer o faterion statws trethiant a risgiau cysylltiedig ar lefel genedlaethol. Mae rhan y Cyngor wrth graffu ar gyflawniad Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg yn parhau i sicrhau bod holl sefydliadau'r sector cyhoeddus yn y rhanbarth, yn gweithio i gyflawni'r Nodau Llesiant ac yn cymhwyso gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

3. **Cynllunio Ariannol, Cyflawniad a Rheoli Risg**
   Mae arweinyddiaeth gref a gweladwy a chyfeiriad strategol clir yn parhau i ddarparu llwyfan cadarn i flaenoriaethu adnoddau a darparu rhaglen wella uchelgeisiol er budd preswylwyr. Mae hyn wedi'i ategu gan drefniadau rheoli gwasanaethau a chyllid cadarn. Rydyn ni wedi gwneud cynnydd cadarnhaol o ran cyflawni ein

blaenoriaethau yng nghyd-destun yr heriau hirfaith sy'n deillio o lymder ac yn fwy diweddar y pandemig. Mae adborth gan ein rheoleiddwyr allanol yn cadarnhau bod y trefniadau sydd gyda ni ar waith yn dangos bod y Cyngor yn defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

Mae adnoddau'r Cyngor yn cael eu cyfeirio at gyflawni ei flaenoriaethau trwy ein trefniadau rheoli cyflawniad sy'n cyfrannu at ddiwylliant cyflawniad cryf wedi'i adeiladu ar fod yn agored, eglur, cefnogaeth a her ar lefel swyddogion ac Aelodau etholedig. Mae cynllunio ariannol a rheoli risg y sefydliad yn cefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor yn effeithiol, fel y gwelir yn y trefniadau adrodd cyflawniad yn ystod y flwyddyn a diwedd y flwyddyn.

Mae gan y Cyngor ymagwedd gadarn at gynllunio ariannol tymor canolig. Mae'r trefniadau yma'n allweddol i gefnogi sefydlogrwydd ariannol parhaus y Cyngor drwy'r cyfnod heriol iawn a ragwelir sydd o'n blaenau.

4. **Adnoddau Dynol/Cynllunio Gweithlu**

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, canolbwyntiodd y Cyngor ei adnoddau AD i barhau i gefnogi rheolwyr, penaethiaid a staff ar draws y Cyngor wrth iddyn nhw ddod allan o gamau amrywiol y pandemig a mynd i'r afael â'r heriau cenedlaethol a lleol parhaus a newidiol yn eu gwasanaethau. Mae hyn wedi golygu adleoli staff Adnoddau Dynol, recriwtio a darparu adnoddau ar gyfer gwasanaethau newydd fel Profi, Olrhain, Diogelu, cefnogi’r gwaith o gydgysylltu a darparu rhaglen profi Covid a'r Rhaglen Frechu, rhoi trefniadau gwarchod ar waith ar gyfer staff oedd ‘mewn perygl’ a hwyluso asesiadau risg i’r holl staff i ddychwelyd i weithio gyda'i gilydd yn ddiogel a chefnogi eu lles. Ar yr un pryd, mae'r Cyngor wedi bod yn cyflwyno system AD/cyflogres newydd, 'iTrent' sy'n cael ei gyflwyno fesul cam ar hyn o bryd yn dilyn cyfnod o 'redeg yn gyfochrog' â'r system AD Vision bresennol.

Ar ôl i AD gael canolbwynt gwahanol dros y ddwy flynedd ddiwethaf, yn ystod 2022-23 byddwn ni'n ymgorffori ac yn datblygu’r prosesau AD cadarnhaol a ddysgwyd yn ystod y cyfnod yma ac yn adlewyrchu’r rhain yn y diwygiadau arfaethedig i’n strategaeth AD a’n Cynllun Gweithlu. Byddwn ni hefyd yn defnyddio canfyddiadau adolygiad AD Archwilio Cymru, 'Llamu Ymlaen', i herio sut rydyn ni'n rheoli’r trefniadau, polisïau a gweithdrefnau AD newydd i gefnogi gwasanaethau’n well wrth iddyn nhw ddod allan o’r pandemig a chwrdd â’r heriau a’r cyfleoedd newydd sydd o’n blaenau a chryfhau ein trefniadau data a meincnodi. Rydyn ni hefyd yn cymryd camau i ddigido, moderneiddio a chryfhau ein prosesau recriwtio ac ehangu ein cronfa o ymgeiswyr. Byddwn ni'n gweithio i wneud y mwyaf o ymarferoldeb y system AD/cyflogres newydd i alluogi'r Cyngor i hysbysu a rheoli ei brosesau gweithlu a data a meincnodi cysylltiedig yn well.

**5. Rheoli Asedau**

Cyn y pandemig, gwnaeth y Cyngor ddechrau cadarnhaol cynnar i leihau nifer y swyddfeydd a feddiannwyd a rhagorodd ar y targed o ostyngiad o 20% a nodir yng Nghynllun Corfforaethol 2016. Yn ystod y pandemig, er mwyn galluogi gwasanaethau i ddiwallu eu hanghenion ac i hwyluso cadw pellter cymdeithasol yn deillio o gyfyngiadau Covid, roedd safleoedd a oedd yn wag yn flaenorol, o

reidrwydd, yn cael eu hailfeddiannu. O ganlyniad, mae defnydd o adeiladau a'r nifer o staff ynddyn nhw wedi newid yn sylweddol dros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf, maen nhw'n cyd-fynd ag agweddau eraill o weithio hyblyg h.y. y gweithlu a digido. Bydd 'Adolygiad o Asedau Adeiledig' y Cyngor yn llywio Strategaeth Swyddfeydd ble cytunir ar dargedau pellach ar gyfer lleihau nifer y safleoedd sy'n cael eu meddiannu. Bydd y portffolio swyddfeydd a ddefnyddir yn ystod 2021/22 yn waelodlin newydd ar gyfer gosod targedau a monitro canlyniadau yn y blynyddoedd i ddod.
Rydyn ni'n adolygu ein Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol 2018-23 yn rheolaidd ar gyfer ein hasedau eiddo. Bydd Cynllun newydd yn cael ei ystyried a’i roi ar waith ym mis Ebrill 2023. Bydd y Cynllun newydd yn adlewyrchu anghenion a diben newidiol ein hasedau adeiledig a'r angen i adlewyrchu'n llawn y newid yn yr anghenion ynni a'r defnydd o ynni fel eu bod yn lleihau'r defnydd o ynni ac allyriadau carbon. Mae gwaith arbed ynni tebyg yn mynd rhagddo ar draws prosiectau presennol ac arfaethedig yn ein Rhaglen Buddsoddi mewn Ysgolion a Rhaglenni Buddsoddi eraill y Cyngor.

Bydd y Strategaeth Swyddfeydd yn llywio datblygiad y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol yn y dyfodol a bydd adran Eiddo'r Cyngor yn parhau i fod yn ganolog i reoli dyheadau'r Cyngor o ran Newid yn yr Hinsawdd drwy'r Cynllun Datgarboneiddio newydd. Mae'r cynllun datgarboneiddio yn elfen allweddol o Strategaeth Mynd i'r Afael â Newid yn yr Hinsawdd y Cyngor ac yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Bydd trosglwyddo asedau cymunedol yn parhau i gael ei ystyried fel opsiwn ar gyfer eiddo dros ben y Cyngor, yn enwedig wrth i weithio hyblyg ddod yn rhan annatod ac mae rhagor o eiddo'r Cyngor yn dod yn wag.

6. **TG/Rheoli Gwybodaeth**

Gan adeiladu ar gyflawniad cadarnhaol ei Strategaeth Ddigidol gyntaf RhCT Ddigidol – Ein Gweledigaeth Ddigidol 2020 a’r cynnydd cyflym pellach mewn digido oedd yn ofynnol oherwydd pandemig Covid, mae’r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd cryf o ran cefnogi newidiadau sefydliadol a gwasanaethau drwy ei gynllun newydd, Strategaeth Ddigidol 2022–2026.

Mae'r strategaeth newydd, y cytunwyd arni gan y Cabinet ym mis Mehefin 2022, yn nodi gweledigaeth y Cyngor o fod yn 'Gyngor sydd wedi’i lywio’n Ddigidol', i wneud y mwyaf o fanteision digidol i'n cymunedau, cwsmeriaid, h.y. preswylwyr, busnesau, staff, disgyblion, Aelodau etholedig ac ymwelwyr; ac i'r Cyngor, gyda phwyslais ar gynhwysiant digidol i sicrhau nad yw unigolion a chymunedau yn cael eu 'gadael ar ôl'. Rhan ganolog o'r gwaith yma yw cryfhau ein mewnwelediad data a gwybodaeth trwy ddarparu data amserol a hygyrch. Yn ganolog i’r weledigaeth yma, mae’r strategaeth hefyd yn nodi sut bydd y Cyngor yn gwella seibergadernid ymhellach ac yn gwella’r broses o ddiogelu ein data a’n hasedau.

Mae gofynion TGCh a digidol allweddol sy'n cael eu cefnogi ar draws y Cyngor yn cynnwys cyflwyno system AD/cyflogres newydd, gweithio hyblyg, dangosfyrddau data corfforaethol, cefnogi anghenion TGCh Aelodau etholedig sy'n codi o etholiadau llywodraeth leol a'r Ganolfan Rheoli Argyfwng ar gyfer rheoli digwyddiadau mawr.

Mae ein hymagwedd yn cefnogi darpariaeth Cynllun Corfforaethol 2020–2024 y Cyngor 'Gwneud Gwahaniaeth' a Strategaeth Ddigidol Genedlaethol Cymru. Mae hefyd yn ceisio cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol sy'n cael eu nodi yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydyn ni hefyd yn datblygu ein gwaith gydag eraill i wneud y mwyaf o fanteision gweithio rhanbarthol, gan gynnwys drwy ffrwd gwaith digidol Cronfa Trawsnewid Cymoedd y Gogledd. Drwy'r strategaeth rydyn ni'n parhau i ddatblygu a chryfhau'r integreiddio rhwng ein gwaith digidol a meysydd corfforaethol eraill i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau a'n huchelgais i ddod yn Gyngor carbon niwtral erbyn 2030. Mae trefniadau llywodraethu effeithiol ar gyfer monitro cynnydd yn cael eu datblygu ar hyn o bryd er mwyn sicrhau cymorth effeithiol a her i gyflawni'r strategaeth.

7. **Caffael a Chomisiynu**

Gwnaeth y Cyngor gyflawniadau sylweddol drwy ein trefniadau caffael fel Cyngor ac mewn partneriaethau â chyrff cyhoeddus eraill, yn ystod y pandemig Covid. Er enghraifft, prynu cyfarpar diogelu personol yn gyflym i gadw preswylwyr a staff yn ddiogel a gwasanaethau'n gweithredu mor effeithiol â phosibl yn ystod cyfyngiadau Covid ailadroddus ac afreolaidd. Wrth i ni ddychwelyd i 'normal', mae'r canolbwynt Caffael wedi bod ar gefnogi cynlluniau adfer y Cyngor a datblygu a gweithredu'r cynllun Strategaeth Comisiynu, Caffael Cymdeithasol Gyfrifol a Rheoli Contractau 2021-2024 ac hefyd i roi paratoadau cynnar ar waith i gwrdd â gofynion y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) drafft.

Mae'r Cyngor hefyd yn canolbwyntio ar gyrraedd ei dargedau lleihau carbon. O fewn trefniadau Caffael a Chomisiynu, mae gwaith cynnar i sicrhau ein bod ni'n cyrraedd y targedau yma o ran caffael 'lleol' a phlastig untro yn cael ei ehangu a'i gyflymu i gwmpasu allyriadau ehangach Cwmpas 3 sy'n deillio o nwyddau a gwasanaethau a gaffaelwyd ac asedau adeiledig, sef cyfran sylweddol o ôl troed carbon y Cyngor.

Er gwaethaf ein cynnydd cadarnhaol hyd yma, rydyn ni'n gwybod bod gennym ni ragor i'w wneud i gryfhau ac ymgorffori ein trefniadau caffael ymhellach ac i wneud y mwyaf o'n pŵer gwario ymhellach a chyfrannu at ffyniant y Fwrdeistref Sirol. Mae ein cynlluniau hefyd yn cynnwys cyflwyno trefniadau rheoli cyflawniad ffurfiol a chraffu ar gyfer ein trefniadau a rhoi gwell cyfathrebu ar waith gyda busnesau.

8. **Partneriaethau**

Mae gan y Cyngor hanes cadarnhaol o weithio mewn partneriaeth a chydweithio ag eraill. Mae enghreifftiau'n amrywio o bartneriaethau rhanbarthol ffurfiol fel Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i weithio gyda grwpiau cymunedol i ddiwallu angen penodol ac uniongyrchol, neu i wneud cais am brosiectau a ariennir gan grant â chyfyngiad amser penodol a'u darparu. Yn ogystal, mae enghreifftiau cadarnhaol o drefniadau cydweithredol sydd ar waith o fewn y Cyngor yn parhau. Effeithiwyd ar ein cynlluniau i adolygu ein partneriaethau i sicrhau eu bod nhw'n darparu deilliannau effeithiol sydd o fudd i bobl a chymunedau yn RhCT, gan yr angen i ailffocysu ein gwaith yn ystod y pandemig. Serch hynny, bydd hyn yn parhau ar ein rhaglen waith ar gyfer 2022 a thu hwnt a byddwn ni'n defnyddio canfyddiadau adroddiadau perthnasol gan Lywodraeth Cymru ac Archwilio Cymru i herio ein trefniadau partneriaethau rhanbarthol. Byddwn ni hefyd yn sicrhau ein bod ni'n

parhau i wneud y mwyaf o gyfleoedd partneriaeth gan gynnwys y rhai sy'n cael eu cynnig gan y Cydbwyllgorau Corfforedig.

9. **Cynnwys, Ymgysylltu ac Adborth Cwsmeriaid**

Rydyn ni'n gwybod fod angen i ni barhau i ehangu a chryfhau ein hymgysylltiad a'n cyfranogiad a gwneud gwell defnydd o'r wybodaeth rydyn ni'n ei derbyn o'r amrywiol sianeli adborth.

Mae gan y Cyngor hanes da o siarad â preswylwyr a chymunedau a chanfod beth sy'n bwysig iddyn nhw. Rydyn ni bob amser yn chwilio am ffyrdd gwell a haws i bobl gymryd rhan a rhoi eu barn a'u safbwyntiau ar y penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw. Bydd y mecanweithiau yma'n cael eu datblygu ymhellach yn Strategaeth Gyfranogiad newydd y Cyngor. Yn 2021-22 fe wnaethon ni ailddechrau rhai o'n sgyrsiau wyneb yn wyneb â phobl, yn ogystal â defnyddio ein platfform ymgysylltu ar-lein newydd ['Dewch i siarad'] a lansiwyd gennym ni ym mis Ebrill 2021 gan ddefnyddio'r [Newid yn yr Hinsawdd] fel ein cynllun peilot. Rydyn ni hefyd wedi rhoi adnoddau ychwanegol ar waith i reoli a chydlynu mewnwelediadau data mewn perthynas â'r Fwrdeistref Sirol sydd hefyd yn cefnogi'r Gymraeg ac asesiadau effaith economaidd-gymdeithasol ac yn llywio ein trefniadau ymgysylltu a data cymunedol yn well.

Mae adborth gan ein cwsmeriaid sy'n breswylwyr, busnesau a rhanddeiliaid yn ogystal â'n hymwelwyr hefyd yn werthfawr i ni wrth i ni ymdrechu i wella'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu'n barhaus. Mae gyda ni dystiolaeth dda o ddefnyddio adborth unigol i lywio newid mewn gwasanaeth. Serch hynny, rydyn ni hefyd yn cydnabod bod angen i ni wneud y mwyaf o werth strategol y data/gwybodaeth sydd ar gael i ni yn effeithiol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydyn ni wedi dechrau ar y gwaith paratoi cyn gweithredu'r system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid newydd erbyn mis Ebrill 2023. Mae'r gwaith paratoi yma'n cynnwys gwirio/glanhau data ac ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a fydd yn ei dro yn llywio gofynion data a chynnwys ac amseroldeb adroddiadau. Bydd y gwaith yma'n allweddol i sicrhau bod anghenion strategol a gwasanaeth yn cael eu diwallu gan y system newydd.

10. **Y Gymraeg**

Mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd cadarnhaol o ran gweithredu Safonau'r Gymraeg, gan drin y Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg a galluogi pobl i fyw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny. Wrth wneud hynny, rydyn ni'n lleihau'r risg bod y Cyngor yn peidio â chydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae ein gwaith yn cynnwys ehangu ein defnydd o dechnoleg ddigidol i gynyddu'r opsiynau ar gyfer gwasanaeth dwyieithog a chefnogi cydymffurfiaeth o ran y Gymraeg, buddsoddi mewn hyfforddiant yn y Gymraeg i hwyluso cyfieithu ar y pryd a hyfforddi staff yn fwy cyffredinol. Rydyn ni hefyd wedi cryfhau ein prosesau Asesu'r Effaith ar y Gymraeg a'n prosesau cydymffurfio ac wedi arwain Cynghorau eraill Cymru i ddatblygu a gweithredu Polisi Grantiau newydd. Serch hynny, mae rhagor i'w wneud i sicrhau bod yr Asesiadau Effaith ar y Gymraeg yn cyflawni'r deilliannau a fwriedir. Mae angen i ni hefyd gynyddu capasiti'r Gymraeg o fewn ein gwasanaethau, hwyluso'r

defnydd o'r Gymraeg yn well yn ehangach ar draws y Fwrdeistref Sirol a sicrhau bod cyfran y staff sy'n siarad Cymraeg yn gynrychioliadol o boblogaeth RhCT fel y nodwyd gan gyfrifiad 2011, h.y. 12.5%.

11. **Cydraddoldeb a Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol**
Mae'r Cyngor yn parhau i fod ag ymrwymiad cryf i degwch a chydraddoldeb fel y dangosir yn y dull strategol a gweithrediad ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, ein hadroddiad diweddaraf a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022. Roedd symud ymlaen â'n gwaith a nodir yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn heriol oherwydd y pandemig a phroblemau adnoddau a gododd. Serch hynny, rydyn ni wedi llwyddo i gyflawni'r mwyafrif o'r amcanion. Roedd y Cyngor a'i wasanaethau hefyd yn dangos agwedd hyblyg y tu allan i'r Cynllun, drwy ymateb i faterion annisgwyl, e.e. ymateb i faterion cydraddoldeb hiliol yn deillio o effaith marwolaeth George Floyd.

Er gwaethaf ein cynnydd, gwyddon ni fod gennym ragor i'w wneud i ymgorffori dealltwriaeth a chymhwysiad ymarferol o'r ystod eang o faterion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws gwasanaethau'r Cyngor. Ar lefel gwasanaeth, mae cydraddoldeb ac amrywiaeth wedi parhau i fod yn rhan o brosesau hunanwerthuso gwasanaethau'r Cyngor. Mae'r rhain yn parhau i ddarparu cyfrwng amserol ac eglur ar gyfer herio a chefnogi ein gwasanaethau'n strategol, yn helpu i lywio ein gofynion adrodd statudol ac yn atgyfnerthu'r ddealltwriaeth ehangach a gweithredu strategaethau cydraddoldeb cysylltiedig ar draws gwasanaethau'r Cyngor.

Mae angen i ni hefyd ymateb i anghenion ein cymunedau a dangos ymhellach ein bod ni'n bodloni gofynion statudol newydd, sy'n deillio o'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol. Ar lefel gymunedol, rydyn ni'n parhau i ymgysylltu â phreswylwyr i gael gwell dealltwriaeth o'r rhwystrau y maen nhw'n eu hwynebu.

Bydd gwerthusiad llawn o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cael ei gwblhau yn ddiweddarach yn 2022, yn rhan o'r gwaith i ddatblygu ein Cynllun newydd, sydd i'w ystyried gan y Cabinet yn 2023.

12. **Adborth Rheoleiddwyr**
Mae gan y Cyngor hanes cryf o berthnasoedd adeiladol a chynhyrchiol gyda'i reoleiddwyr. Mae tystiolaeth yn dangos bod y Cyngor yn ymateb yn dda i adborth mewn adroddiadau rheoleiddio sy'n benodol i RCT, a hefyd yn defnyddio adroddiadau ac astudiaethau cenedlaethol i herio sut mae'n darparu ac yn comisiynu gwasanaethau.

Serch hynny, wrth inni ddod allan o'r pandemig ac wrth i raglenni rheoleiddio llawn ailddechrau, mae angen inni ailedrych ar ein prosesau gan gynnwys parhau i gryfhau'r trefniadau ar gyfer gwreiddio'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy/Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ein trefniadau, gan weithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg a Chomisiynwyr Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i wneud eu hadborth yn fwy eglur. Byddwn ni hefyd yn parhau i alinio adborth rheoleiddwyr â chynllunio cyflawni yn ogystal â phwyllgorau Craffu a Llywodraethu ac Archwilio yn y

weinyddiaeth newydd i ddarparu sicrwydd mewnol ychwanegol i Aelodau etholedig a chymunedau.

13. **Sero Net**
Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd cadarnhaol tuag at osod a chyflawni ei dargedau Lleihau Carbon cynnar a gweithredu rhaglen waith gychwynnol eang, hyblyg ac uchelgeisiol. Hyd yn hyn, mae ein cyfeiriad wedi'i bennu ac mae ein cynnydd wedi'i fonitro gan drefniadau llywodraethu gwleidyddol a swyddogion a rheoli prosiectau y cytunwyd arnyn nhw. Mae hyn wedi'i gyfarwyddo gan Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd ac yn ddiweddarach, yr Is-bwyllgor. Serch hynny, mae llawer i'w wneud o hyd i gynyddu graddfa a chyflymder ein gwaith ac i hysbysu a chefnogi ein staff a'n preswylwyr yn well fel bod modd iddyn nhw gyfrannu'n llawn at helpu'r Cyngor i gwrdd â'r heriau o ran yr hinsawdd ar draws holl wasanaethau'r Cyngor a ledled y Fwrdeistref Sirol ac i gyfrannu at y targedau cenedlaethol a byd-eang.

Bydd cytundeb y Cabinet i Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd gynhwysfawr ac uchelgeisiol ym mis Mehefin 2022 a'r gwaith parhaus i ddatblygu Cynllun Datgarboneiddio'r Cyngor yn darparu canolbwynt a fframwaith a fydd yn cryfhau ac yn cyflymu ein gwaith hyd yma. Bydd cynnydd mewn perthynas â'r Cynllun Datgarboneiddio yn cyd-fynd â diweddariadau mewn perthynas â'r Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd yn rhan o'r adroddiadau cyflawniad chwarterol i'r Cabinet.

14. **Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol**
O ystyried uchelgeisiau'r Cyngor, cyflymder y newid sydd ei angen i gyflawni ei flaenoriaethau, ac effaith y pandemig ar y gwasanaethau i ymateb i angen uniongyrchol, mae lefel y cynnydd o ran gweithredu'r Ddeddf yn gadarnhaol ar y cyfan. Serch hynny, mae gwaith mewn rhai meysydd gwasanaeth a chorfforaethol yn fwy datblygedig nag eraill. Mae gwybodaeth a phrofiad yr holl gyrff cyhoeddus sy’n destun i'r Ddeddf, gan gynnwys yr angen am gymorth mwy penodol gan gyrff cenedlaethol, yn parhau i dyfu ac aeddfedu. Roedd adborth blaenorol gan reoleiddwyr ynghylch dull y Cyngor o weithredu'r Ddeddf yn gadarnhaol ar y cyfan ond rydyn ni'n gwybod bod rhagor i'w wneud. Gyda’r dull cenedlaethol newydd diweddar gan Archwilio Cymru i brofi sut mae Cyrff Cyhoeddus yn cymhwyso’r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei holl adolygiadau, mae'n anochel bod bylchau yn ein dulliau gweithredu, gan gynnwys y cymorth sy'n cael ei ddarparu gan y Comisiynydd, yn cael eu hamlygu.

3

ADRAN:

# Hunanwerthusiad o'n Gwasanaethau

# ADRAN 3

## Hunanwerthusiad o'n Gwasanaethau

Mae ein Hunanwerthusiad o’n Gwasanaethau blynyddol wedi bod ar waith ers 2016. Wrth ysgrifennu'r Hunanwethusiad, mae angen gonestrwydd a hunanymwybyddiaeth ac anogir gwasanaethau i ymdrechu'n barhaus am ragoriaeth o fewn yr adnoddau sydd gennym ni.

Mae'r Hunanwerthusiad yn gofyn i wasanaethau

1. sut maen nhw'n cyflawni
2. tystiolaeth am hyn, a
3. nodi beth mae modd iddyn nhw ei wneud i wella

Mae’r broses yn galluogi gwasanaethau i adlewyrchu a gwerthuso eu cyflawniad gan nodi eu cryfderau, blaenoriaethau a meysydd i’w gwella sydd yn eu tro yn llywio Cynlluniau Darparu Gwasanaeth blynyddol a hefyd Cynlluniau Blaenoriaeth y Cyngor.

Mae'r Hunanwerthusiad hefyd yn


- helpu Aelodau etholedig i gefnogi, herio a chraffu ar gyflawniad, cynnydd a chynllunio.
- cynorthwyo gwasanaethau i ddarparu tystiolaeth ar gyfer archwilio neu arolygu a chyflawni gofynion y ddeddfwriaeth berthnasol.
- helpu gwasanaethau i wneud penderfyniadau gwell a rheoli risgiau.
- dangos gwerth am arian, y potensial ar gyfer newid mewn gwasanaeth, gwariant neu arbedion effeithlonrwydd a nodi effaith darpariaeth gwasanaeth newydd neu ddiwygiedig.
- galluogi Gwasanaethau Corfforaethol i flaenoriaethu cymorth gwasanaeth.
- darparu mecanwaith/gwybodaeth ar gyfer monitro 'corfforaethol' a gwasanaethau 'trawsbynciol' gyda'r wybodaeth sydd ei hangen arnyn nhw i lunio cynlluniau gweithredu strategol ac adroddiadau statudol ar gyfer y Cyngor, e.e. *Newid yn yr Hinsawdd; Safonau'r Gymraeg, Bioamrywiaeth; Cydraddoldebau a Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol.

Mae'r model Hunanwerthuso yn cael ei adnewyddu'n flynyddol i sicrhau ei fod yn ystyried adborth gan wasanaethau a'i fod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn addas i'r diben. Dros y blynyddoedd mae wedi cael ei ddatblygu fel bod gwasanaethau’n gallu darparu gwybodaeth am yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy drwy’r pum Ffordd o Weithio a themâu trawsbynciol eraill sy’n llywio adroddiadau statudol, fel y rhai a nodir uchod*. Mae'r Model Hunanwerthusiad 2021 a'r meini prawf dyfarniad a ddaeth yn weithredol yn ystod hydref 2021 ar gael.

Cafodd y gyfres o un ar hugain o hunanwerthusiadau eu cwblhau gan wasanaethau ar ddiwedd 2021. Cawson nhw eu hadolygu gan yr Aelod Cabinet priodol, eu cymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Cyfadran. Maen nhw hefyd wedi bod yn destun her annibynnol gan y Prif Weithredwr mewn cyfarfodydd gyda phenaethiaid gwasanaethau. Mae'r gwerthusiadau yma hefyd ar gael ar fewnrwyd y Cyngor i'w defnyddio'n fewnol.

Roedd yr wybodaeth yn yr hunanwerthusiadau, a'r blaenoriaethau gwasanaeth sy'n dod i'r amlwg, yn llywio'r Cynllun Cyflawni ar gyfer pob gwasanaeth ar gyfer 2022/23. Mae'r Cynlluniau Cyflawni yn destun monitro o fewn y gwasanaethau. Mae camau gweithredu perthnasol hefyd wedi'u cynnwys

yng nghynlluniau blaenoriaeth y Cyngor, sy'n cael eu monitro a'u hadrodd yn yr Adroddiadau Cyflawniad chwarterol i'r Cabinet ac wedi hynny i wahanol bwyllgorau craffu. Cyfeirir at y Cynlluniau Blaenoriaeth yn Adran 1 uchod.




4

ADRAN:

# Ein defnydd o'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy

# ADRAN 4

## Sut rydyn ni'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac yn cyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol

Mae Datblygu Cynaliadwy yn cael ei ddiffinio yn y Ddeddf fel y broses o wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn datblygu hyn ymhellach drwy ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus fodloni'r egwyddor drwy gymhwyso'r 5 Ffordd o Weithio a chyfrannu at y Saith Nod Llesiant cenedlaethol. Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi saith gweithgaredd craidd sydd fwyaf tebygol o sicrhau newid, gweler adran 2 uchod. Dull y Cyngor mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fel y cytunwyd gan y Cabinet yn 2016 yw cynnwys ei holl ofynion yn rhan o waith y Cyngor. Mae'r angen i newid canolbwynt ein gwaith i ymdrin â'r pandemig wedi arwain at gynnydd arafach na'r disgwyl i ddatblygu hyn ymhellach. Serch hynny, mae modd i ni dynnu sylw at lawer o enghreifftiau achos o sut rydyn ni'n cymhwyso'r Ddeddf ac yn cyfrannu at y Saith Nod Llesiant cenedlaethol yn ein Cynlluniau Blaenoriaeth. Mae detholiad o'n cyfraniadau i'r nodau wedi'u crynhoi at ddibenion enghreifftiol yn Atodiad A.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor osod amcanion llesiant sy'n gwneud y mwyaf o'i gyfraniad at gyflawni'r nodau llesiant. Wrth wneud hynny, bydd disgwyl i'r Cyngor gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion llesiant hynny. Cynigir mai'r Amcanion Llesiant fydd y tair blaenoriaeth a nodir yn y Cynllun Corfforaethol drafft 2020-2024.

Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor, a gytunwyd gan y Cabinet ym mis Mawrth 2020, yn nodi ein gweledigaeth, egwyddorion a'n blaenoriaethau a bydd yn gwneud y mwyaf o'n cyfraniad at y Saith Nod Llesiant cenedlaethol. Mae'r nodau cenedlaethol, ynghyd â'r Pum Ffordd o Weithio, wedi'u hymgorffori yn y cynlluniau gweithredu manwl sydd wedi cyflawni tair blaenoriaeth y Cyngor ac wedi'u crynhoi yn ein Hadroddiadau Cyflawniad Corfforaethol.

Mae ein Hadroddiadau Cyflawniad Corfforaethol hefyd wedi nodi ein cynnydd o ran bodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn flaenorol, yn bennaf yn ddiweddar yn 2021/22. Eleni, gan ein bod ni wedi newid ein dull o gyflwyno adroddiadau corfforaethol blynyddol, mae ein cynnydd o ran gweithredu'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi'i gynnwys yn Adran 14 o'r asesiad o swyddogaethau corfforaethol/trawsbynciol.

A

ATODIAD:

# Cyfrannu at y Nodau Lles

A

## Rhai o’r ffyrdd rydyn ni'n cyfrannu at y Saith Nod Llesiant Cenedlaethol

| Nod Llesiant Cenedlaethol | POBL<br>Sicrhau bod pobl yn annibynnol, yn iach ac yn llwyddiannus. | LLEOEDD<br>Ble mae pobl yn falch o gael byw, gweithio a chwarae ynddyn nhw. | FFYNIANT<br>Creu'r cyfle i bobl a busnesau fod yn arloesol, yn entrepreneuraidd ac i gyflawni eu potensial a ffynnu. |
|---|---|---|---|
| Ffyniannus | • Cefnogi Plant a Phobl Ifainc drwy roi dechrau gwych iddyn nhw mewn bywyd trwy ein rhaglen Teuluoedd Cydnerth.<br>• Ailddatblygu eiddo gwag yn unol â strategaethau adfywio i ddod ag adeiladau amlwg yng nghanol y dref yn ôl i ddefnydd a gwella ein cynnig tai, e.e. Cynllun Tai â Chymorth newydd Adeiladau Rhydychen yn Aberpennar a Datblygiad Big Shed yn Nhonypandy. | • Cadw pobl a thraffig i symud ar ffyrdd a phalmentydd sy’n cael eu cynnal a’u cadw’n dda gan gynnwys y gwaith rydyn ni’n ei wneud i gadw ein ffyrdd ar agor yn ystod misoedd y gaeaf.<br>• Darparu cyfleusterau busnes newydd a fydd yn cefnogi dyfodol economaidd hirdymor y rhanbarth.<br>• Bwrw ymlaen â chynlluniau a fydd o fudd i gymunedau nawr ac yn y dyfodol gan gynnwys cynllun deuoli a theithio llesol yr A4119 o Gylchfan Coed-elái i Barc Busnes Llantrisant. | • Cefnogi busnesau i addasu ac arallgyfeirio<br>• Datblygu cynlluniau creu lleoedd ym Mhontypridd, Porth a Thonypandy a chefnogi amrywiaeth o waith ailddatblygu i adfywio canol ein trefi.<br>• Adeiladu cartrefi newydd a gweithio gyda datblygwyr i hwyluso adeiladu cartrefi ar safleoedd tir llwyd ble bo'n briodol.<br>• Cefnogi pobl i ddatblygu sgiliau newydd.<br>• Darparu ysgolion ble gall plant gyflawni'r gorau y gallan nhw. |
| Cydnerth | • Lleihau aflonyddu ar safleoedd a gwastraff materol gydag amserlenni adeiladu byrrach drwy ddefnyddio dulliau adeiladu modiwlaidd wrth adeiladu ein cyfleusterau Gofal Ychwanegol.<br>• Cynhyrchu fideos ar-lein o’n llwybrau cerdded mwyaf poblogaidd ledled y Fwrdeistref Sirol, sy’n darparu llwybr gweledol a chyfarwyddiadau ar gyfer y llwybr i annog pobl i archwilio ein mannau gwyrdd naturiol. Mae rhai o'r fideos wedi'u targedu at famau newydd drwy ein rhaglen 'Camau i Famau' i annog mamau newydd i wneud ymarfer corff yn yr awyr agored ochr yn ochr â mamau eraill. | • Buddsoddi, gwerthfawrogi a dathlu ein mannau gwyrdd.<br>• Lansio ein tudalen we bioamrywiaeth newydd.<br>• Cynnwys ac ymgysylltu preswylwyr yn ein sgyrsiau Dewch i Siarad am Flodau Gwyllt a drafft newydd o gynllun gweithredu adfer 'Gweithredu dros Natur'.<br>• Cynyddu mesurau lliniaru llifogydd gan gynnwys gwaith yn Aberdâr ac Ynys-hir. | • Hyrwyddo bioamrywiaeth drwy amddiffyn cynefinoedd presennol ble bo hynny'n bosibl a chreu ardaloedd newydd ar gyfer bywyd gwyllt yn ein hysgolion.<br>• Integreiddio bioamrywiaeth i gynllunio a threfniadau Cynllun Datblygu Lleol. |

| Nod Llesiant Cenedlaethol | POBL<br>Sicrhau bod pobl yn annibynnol, yn iach ac yn llwyddiannus. | LLEOEDD<br>Ble mae pobl yn falch o gael byw, gweithio a chwarae ynddyn nhw. | FFYNIANT<br>Creu'r cyfle i bobl a busnesau fod yn arloesol, yn entrepreneuraidd ac i gyflawni eu potensial a ffynnu. |
|---|---|---|---|
| Iachach | • Helpu pobl i gadw mor iach â phosibl drwy annog rhagor o weithgarwch mewn lleoliad sy'n addas i'r unigolyn e.e adref, yn ein canolfannau hamdden, yn ein mannau gwyrdd awyr agored ac mewn cyfleusterau cymunedol mewn ysgolion.<br>• Darparu cymorth ailalluogi a thechnoleg gynorthwyol i sicrhau bod ein pobl hŷn, agored i niwed neu'r rhai sydd ag anabledd yn gallu aros yn annibynnol yn eu cymunedau. | • Symud ymlaen â safonau Baner Werdd a'u cynnal yn ein parciau i sicrhau eu bod yn darparu noddfa i breswylwyr, yn cyfrannu at well lles corfforol a meddyliol, yn annog ymgysylltu â natur a chwarae ac yn creu cyfleoedd i bobl ddod at ei gilydd.<br>• Parhau i fynd i'r afael â throseddau amgylcheddol a chosbi'r rhai sy'n cyflawni'r troseddau.<br>• Ymgysylltu â phreswylwyr ynglŷn â llwybrau teithio llesol gan gynnwys cynlluniau rhwng Pont-y-gwaith a Maerdy, cysylltiadau ag Ystad Ddiwydiannol Trefforest a llwybr cymunedol Pentre'r Eglwys. | • Ehangu nifer y swyddogion ymgysylltu â theuluoedd mewn ysgolion yn dilyn llwyddiant cynllun peilot oedd yn rhoi cymorth i blant a theuluoedd gyda'u lles ac ymgysylltu ag addysg.<br>• Rhoi cymorth cwnsela gwell i bobl ifainc, gan gynnwys y rhai yr effeithiwyd fwyaf gan bandemig Covid 19.<br>• Dod o hyd i ffyrdd o ddiogelu ansawdd aer a hybu iechyd drwy deithio llesol ac amwynderau lleol wrth gynllunio datblygiadau newydd, gan gynnwys cwblhau astudiaethau i deithio llesol yng nghanol trefi Pontypridd, Porth ac Aberdâr. |
| Mwy Cyfartal | • Parhau i ddatblygu ein cynigion tai fel bod modd i breswylwyr fwynhau manteision byw'n annibynnol, e.e. cyfleusterau gofal ychwanegol a chynlluniau tai â chymorth.<br>• Sefydlu rhwydwaith bwyd cynaliadwy yn rhan o'n cynllun Lleoedd Bwyd Cynaliadwy i fynd i'r afael â thlodi bwyd yn ein cymunedau.<br>• Darparu cynhyrchion mislif i'n cymunedau trwy Grant Urddas Mislif yn y Gymuned LlC. | • Codi ymwybyddiaeth o droseddau casineb.<br>• Sicrhau bod cymorth cam-drin domestig ar gael i bawb mewn angen gan gynnwys cymorth gan Gynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig arbenigol, un ar gyfer plant a phobl ifainc, un ym maes Iechyd ac un arall gyda Tai yn Gyntaf.<br>• Rhoi cymorth gyda chamddefnyddio sylweddau i'r rhai sydd ei angen trwy ragor o waith allgymorth gan Barod a hyrwyddo'r cymorth rydyn ni'n ei ddarparu. | • Darparu dysgu amgen, cynllunio gyrfa a phrofiad gwaith i'r bobl ifainc hynny sy'n ei chael hi'n anodd cymryd rhan mewn dysgu yn yr ystafell ddosbarth.<br>• Darparu cynhyrchion mislif i helpu i fynd i'r afael â thlodi misglwyf ymhlith y merched a menywod yn ein cymunedau.<br>• Benthyca dyfeisiau a wi-fi i blant, pobl ifainc a'r sawl sy'n chwilio am waith i'w helpu i barhau ag addysg a hyfforddiant ar-lein. |

3

| Nod Llesiant Cenedlaethol | POBL<br>Sicrhau bod pobl yn annibynnol, yn iach ac yn llwyddiannus. | LLEOEDD<br>Ble mae pobl yn falch o gael byw, gweithio a chwarae ynddyn nhw. | FFYNIANT<br>Creu'r cyfle i bobl a busnesau fod yn arloesol, yn entrepreneuraidd ac i gyflawni eu potensial a ffynnu. |
|---|---|---|---|
| Cymunedau Cydlynus | • Helpu pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain am gyfnod hirach a'u galluogi i gyfrannu at gymunedau a chryfhau eu perthnasau cymdeithasol.<br>• Cefnogi a hyrwyddo cyfleoedd i wirfoddoli yn ein cymunedau trwy ein Canolfannau Cymunedol.<br>• Cefnogi cymunedau i gael cysylltiadau da trwy ein Rhwydweithiau Cymdogaeth. | Cadw pobl yn ddiogel a'u helpu i deimlo'n ddiogel drwy:<br>• Ymateb i geisiadau cymunedol i weithredu<br>• Mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol<br>• Diogelu'r rheini sy'n agored i droseddau carreg drws | • Gwella tai i'n holl drigolion a chreu cymdogaethau dymunol i gymunedau ffynnu. |
| Diwylliant Bywiog ble mae'r Gymraeg yn Ffynnu | • Parhau i ddarparu cyfleoedd diwylliannol a chelfyddydol ar-lein ac wyneb yn wyneb gan gynnwys cynhyrchiad ar-lein rhad ac am ddim o Aladdin ac achlysuron fel Llyfrgell Pobl Cymru yn Llyfrgell Pontypridd.<br>• Darparu rhaglen Addysg i Oedolion amrywiol, gan gynnwys hanes lleol a sgiliau Cymraeg sylfaenol i helpu rhieni i gefnogi datblygiad eu plentyn. Mae modd cyrchu'r cyrsiau wyneb yn wyneb ac ar-lein, gan ddileu rhai rhwystrau i ddysgu a nodwyd. | • Cynllunio, cynnwys a pharatoi i Rondda Cynon Taf gynnal Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn 2024. | • Dathlu diwylliant a hanes yr ardal yn ein theatrau a pharciau a datblygu Parc Rhanbarthol y Cymoedd<br>• Cefnogi ailddatblygiad yr adeilad YMCA a Chanolfan Gelf y Miwni ym Mhontypridd i ddatblygu canolbwynt diwylliannol.<br>• Hyrwyddo RhCT yn gyrchfan i ymwelwyr, gan gynnwys yr Eisteddfod. |
| Cyfrifol ar Lefel Fyd-eang | • Cydlynu ymateb y Fwrdeistref Sirol i argyfwng ffoaduriaid Wcráin.<br>• Ein gwaith gyda PONT, sefydliad elusennol sy'n cael ei redeg gan wirfoddolwyr yn RhCT sy'n gwneud gwahaniaeth i fywydau ym Mbale, Dwyrain Uganda ac sy'n anelu at gefnogi sefydliadau o Uganda sydd â'r potensial i fynd i'r afael â thlodi yn eu trefi a'u pentrefi. | • Parhau i annog ailgylchu ac ailddefnyddio a gweithredu Gwasanaeth Casglu Gwastraff Gwyrdd newydd.<br>• Symud ymlaen ein cynlluniau i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a'i leihau drwy wasanaethau'r Cyngor a'r Fwrdeistref Sirol ac i gyrraedd targedau 2030, gan gynnwys cyhoeddi Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan 2021-2030 y Cyngor a Strategaeth Mynd i'r Afael â Newid yn yr Hinsawdd y Cyngor 'RhCT Hinsawdd Ystyriol' (2022-2025). | • Cefnogi Mentrau Masnach Deg.<br>• Datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy fel ffynnon dwym Ffynnon Taf.<br>• Gweithio gyda Chymdeithas Tai Cwm Rhondda i ddatblygu cartref di-garbon gan ddefnyddio pren lleol yn rhan o'r cynllun Skyline. |